

Cofion a Chyfarchion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Megan Evans (Llansannan) a Selwyn Davies (Cefn Meiriadog) sy'n cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd, a hefyd Kitty Parry (Llanefydd) sydd bellach yn yr Inffirmari ar ôl treulio ychydig ddyddiau yn Ysbyty Glan Clwyd. Hefyd yn cael gofal yn yr Inffirmari y mae Elizabeth Jones (Llansannan). Cyflwynwn hwy oll i ofal tyner ein Duw. Mae'n dda cael adrodd fod Joyce Lloyd (Llanfair) wedi cael dod adref o'r ysbyty. Dymunwn wellhad buan iawn iddi hi a phawb arall o'r Ofalaeth sydd heb fod cystal eu hiechyd. Gweddiwn y bydd Duw yn ei holl ddaioni yn rhoi nerth a chysur iddynt yn eu hangen. Parhawn i gofio hefyd am y rhai yn ein plith sy'n galaru am anwyliaid. Gweddiwn y byddant yn profi Duw yn agos a'u bod yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu y dyddiau hyn.
- Yn yr un modd, parhawn i gofio am ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mrs Kate Davies (Coed Môr, Abergele); Mrs Beryl Jones (Cartref Nyrsio Y Bwthyn, Yr Wyddgrug); Mrs Morfudd Williams (Dolwen, Dinbych); Miss W J Roberts a Mrs Menna Owen (Yr Hen Ddeondy, Llanelwy); Mrs Gwenfyl Jones a Mr Gwyn H. Davies (Yr Hen Ficerdy, Pandy Tudur); a Mrs Elizabeth Hughes (Plas Eleri, Dinbych). Cyflwynwn hwythau hefyd i ofal yr Arglwydd gan ofyn iddo eu hamgylchynu gyda thrugaredd a daioni.
- Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Trebor Roberts (Llansannan) fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig dydd lau nesaf!

I ddo

- **CHRISTIAN VIEWPOINT** – Cyfarfod i'r merched yng Nghanolfan Gymunedol Bae Cinnel nos Lun, Mawrth 14eg am 7.30. Dr Rhiannon Lloyd fydd yno'n siarad am y gwrs a ddysgwyd gan wahanol rannau o'r byd am gymod. £3 yn cynnwys bwffe.
- **CYMDEITHAS Y BEIBL** – Penwythnos o ddigwyddiadau yn y Bala Mawrth 18fed – 20fed. **Dydd Gwener am 3.30 o'r gloch:** Cyfle i weld Beibl gwreiddiol Mary Jones ym Manc Barclays: Tŷ Thomas Charles (Ile derbyniodd Mary Jones ei Beibl. Mae'r seff lle cadwyd y Beiblau a'r arian a dderbyniwyd am y Beiblau a werthwyd i'w gweld yn y Banc.) **Dydd Sadwrn: 10.00-4.00** Y Beibl yng Nghanolfan Byd Mary Jones; **2.00-4.00yp** Bydd Dr Onesimus Ngundu (Gwarchodwr y Beibl) yn ymweld â'r Ganolfan; **7.00yh** Gwasanaeth i groesawu Beibl Mary Jones yng Nghapel Tegid am 7.00 pryd ceir anerchiad gan Dr Onesimus Ngundu, darlleniad o'r Beibl gwreiddiol, dramodig, emynau, gweddi ac eitemau yn dangos gwahanol draddodiadolau'r ardal. **Dydd Sul: 10.00-12.00** Y Beibl yng Nghanolfan Byd Mary Jones. Croeso i bawb!
- **CYFARFOD CHWIORYDD BRO ALED** yng Nghapel Henllan nos Fercher, Mawrth 23ain am 7.30 yng nghwmni Mrs Carys Davies, Cydlynnydd Rhaglen Dorcas yn y Gogledd.
- **OEDFA'R GROGLITH** yng Nghapel Cefn Berain nos Wener, Mawrth 25ain am 7.00. Pregethir gan y Parch. Christopher Prew.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 6^{ed} Mawrth 2016

Darlleniad y Dydd

Luc 9:43b-45

(BCND tud. 75 / BCN tud.69)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da a chroeso i oedfaon y dydd heddiw. Gweddiwn y byddwn yn cyfarfod â Duw yn bersonol heddiw, fydd yn ein hybu i gwrso perthynas agosach gyda'r Duw byw.

Rydan ni yn ddiweddar wedi mynd â llawer o leuenctid a phlant Y Fro i Goleg y Bala ar gyfer amrywiaeth o gyrsiau penwythnos yno. Chwarae teg, 'da ni wedi cael andros o lot o hwyl yno yn chwarae llwyth o gemau, dysgu am Dduw a bwyta llawer iawn gormod o fferins! Mae gwario amser efo'r ieuenctid wedi bod yn fendith bersonol i mi a Sarah ac yn sicr, mae nhw wedi mwynhau'r amser i fod efo'i gilydd yn cael hwyl a chreu trwbwl!

Un peth dwi wedi sylwi ac sydd wedi bod yn galonid i mi ydy'r ffordd mae nhw'n ymateb i'm llais i. Yn aml ar y cyrsiau yma, mae'n dipyn o job cael rheolaeth ar grŵp o bobl ifanc er mwyn gallu esbonio rhyw gêm neu i rannu neges o'r Efengyl gyda nhw. Canlyniad hyn fel arfer ydy gorfod codi llais a galw enwau'r rhai sydd ddim yn gwrando. Beth dwi wedi sylwi ydy fod y bobl ifanc o Fro Aled yn ymateb i'm llais i. Tra bod arweinwyr eraill yn ymddangos fel eu bod nhw'n aneffeithiol yn rheoli criw Y Fro, dim ond gair tawel gen i oedd ei angen i ddal eu sylw. (Nodwch mai nid ymdrech i ganmol fy hun yn gyhoeddus ydy hwn – dwi'n addo!) Y gwahaniaeth dybiaf i oedd fod criw Y Fro yn adnabod lleisiau Sarah a fi o fod mewn clybiau gyda ni. Er holl ymgeision yr arweinwyr eraill, roedd o'n cymryd llais a pherson roedden nhw'n ei adnabod i gael eu sylw.

Daeth i gof y darlun o Iesu fel bugail yn Ioan 10:11-21 ac yna yn adnodau 25-30. Mae Iesu yn esbonio ei fod fel bugail yn gofalu am ei ddefaid. Mae o'n ein nabod ni, ac rydyn ni'n ei nabod o. Yn nes ymlaen, mae'n esbonio wrth yr arweinwyr Iddewig mai'r bobl sydd wedi ei dderbyn fel Meseia ydy'r bobl sy'n adnabod ei lais – yn union fel mae dafad yn 'nabod llais y bugail. Mae yna nifer o leisiau gwahanol yn ein galw ni ac yn ein tynnu ni yn y byd yma. Ar ba leisiau ydan ni'n mynd i wrando? Ydan ni'n adnabod llais Iesu Grist? Ydan ni'n rhoi amser i wrando ar ei lais?

Hoffwn roi sialens i chi geisio adnabod llais Iesu Grist yn well. Plymiwch i mewn i lyfrau'r Beibl a phenodwch amser yn ddyddiol i weddio a phwyso ar yr Arglwydd.

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Gwion

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 6^{ed} • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion a'r Ieuenctid, a bydd y Parch. Rhun Murphy yn pregethu.
- Mercher – 9^{fed}
lau – 10^{fed} • **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
• **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
• **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.30.
- Gwener – 11^{eg} • **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sul nesaf – 13^{eg} • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn a bydd Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 6^{ed} Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang yn Llanfair am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yno am 11.00. Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a bydd yr Ysgol Sul am 2.00.
- Mawrth – 8^{fed} Cyfle am ginio a sgwrs yn Ffestri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf – 13^{eg} Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul yma – 6^{ed} Cynhelir Cyfarfod Gweddi am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Mercher – 9^{fed} Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **erbyn dydd Sul, Mawrth 6ed**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 13^{eg} Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Rhaghysbys Bydd y Pwyllgor Adeiladau yn cyfarfod nos Lun, Mawrth 14eg am 7.30.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 6^{ed} Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf – 13^{eg} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma – 6^{ed} Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel ac yn Saron am 10.00.
- Sul nesaf – 13^{eg} Bydd Sarah yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 6^{ed} Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang yn Groes am 10.00 a bydd Gwasanaeth Gŵyl Ddewi Undebol yng Nghapel Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.
- Sul nesaf – 13^{eg} Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan ac yn Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 6^{ed} Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang yn Llanefydd ac yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgolion Sul yn cydreddeg.
- Sul nesaf – 13^{eg} Bydd Dr Owain Edwards yn arwain oedfa deuluol yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00.

Manylion Cyswllt

- Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com 📞 01745 870618 📱 07775 701102
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07849 591163
Sarah – 📧 sarah@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07900 308461
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Darlleniad Wythnos Nesaf

Ioan 11: 55-57 (BCND tud.115 / BCN tud.106)